**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**7fed Chwefror 2011**

**CYLLIDEB 2011/12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cadarnhau'r gyllideb refeniw ar gyfer 2011-12.

2 I gynghori Aelodau yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2010, o sut fydd Swyddogion yn monitro, rheoli ac yn adrodd y gyllideb refeniw dros y 3 mlynedd nesaf gyda'r cyfyngiadau ychwanegol gymhwysir drwy'r strategaeth i ostwng y gyllideb.

## Cefndir

3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr, fe gytunodd yr Aelodau i gymhwyso gostyngiad o 2.5% i'r gyllideb yn flynyddol am y 3 mlynedd nesaf, er mwyn efelychu'r cyfyngiadau ariannol oedd yn cael eu gosod ar ei Awdurdodau Cyfansoddol yn yr hinsawdd economaidd bresennol ac yn dilyn canlyniad Adolygiad Gwario Cynhwysfawr Llywodraeth y Glymblaid y llynedd.

4 Trwy wneud hyn, bydd y gostyngiadau yma dros y 3 mlynedd nesaf yn cynhyrchu arbedion o £2.4m yn y gyllideb ac yn cefnogi'r ffactorau chwyddiannol aflywodraethus mae'r Awdurdod yn eu hwynebu dros y 3 mlynedd nesaf.

5 Does dim arwyddion hyd at heddiw fod y Grant Cefnogi Refeniw i'r Awdurdodau Cyfansoddol yn mynd i fod yn wahanol i'r ffigyrau drafft a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, felly mae cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2011-12 i'w chymeradwyo fel y'i drafftiwyd ar 15fed Chwefror gyda'r cyfraniadau cyfansoddol yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yr wythnos honno.

## Rheolaeth y Gyllideb Refeniw

6 £31,932,653 yw'r gyllideb a osodir ar gyfer 2011-12 ac mae angen arbedion o £802,000 i danategu'r ffigwr hwn.

7 Er mwyn sicrhau fod y strategaeth arbediad yn cael ei chyflawni o flwyddyn i flwyddyn ac i liniaru'r perygl o lithriad, bydd angen rhagor o reolaeth ariannol fanwl ar y gyllideb.

8 Mae Strategaeth Gostwng y Gyllideb yn cynnwys 'pecynnau' o arbedion ar draws y Gwasanaeth cyfan, mae enghreifftiau yn cynnwys gostwng y cyllidebau dewisol, darfyddiad digwyddiadau anstatudol, adolygiad o wasanaeth cefnogi tân wrth gefn y rheng flaen a gwasanaethau staff cefnogi. Mae angen cynllunio ymlaen manwl iawn i sicrhau y gellir gweithredu hyn ar gychwyn y flwyddyn ariannol lle'n bosib, neu yn achos arbedion drwy wastraff naturiol, eu monitro a'u rheoli drwy'r flwyddyn.

9 Dros y misoedd fydd yn arwain at y flwyddyn ariannol newydd, bydd Swyddogion yn gwneud gwaith paratoi ar y gyllideb fydd yn cynnwys briffio staff ar draws y Gwasanaeth ar gynnwys y strategaeth er mwyn sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o'r goblygiadau, gweithrediad y strwythurau staff newydd ac adolygiad o'r swyddi gwag presennol yn ogystal â chymhwyso polisïau newydd i gyllidebau dewisol sydd wedi cael eu gostwng neu ddim yn bodoli mwyach.

10 Pan fydd y flwyddyn ariannol newydd yn cychwyn, bydd Aelodau'n derbyn adroddiad cynnydd ar y pecynnau arbedion drwy ddull gyllideb arferol, yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin, Hydref, Rhagfyr a Mawrth.

11 Os oes unrhyw bryderon am yr amseriad neu'r gallu i gyflwyno yn erbyn strategaeth gostwng y gyllideb, bydd y rhain yn cael eu hamlygu i Aelodau cyn gynted ag y bo modd er mwyn hysbysu proses osod cyllideb 2012/13.

## Argymhelliad

12 Fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth uchod.